

Carreg Filltir

Dyma hanner canfed rhifyn y Bwletin - ac esgus i atgoffa ein hunain am hanfodion gwreiddiol Prosiect unigryw Llên Natur.



Pa brosiect yw hwn?

- prosiect Gymraeg sydd yn cyflwyno tystiolaeth mewn unrhyw iaith neu ieithwedd.
- prosiect amgylcheddol, ond chi sydd yn diffinio beth yw “amgylchedd”
- prosiect aml gyfryngol, yn casglu a chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, llafar, delweddau (llonydd a symudol), graffig (graffiau), topograffig (tirlun), toponymig (enwau lleoedd) a mapiau (be sydd ymhle).
- prosiect cyfoes a hanesyddol yr un pryd - y naill yn rhedeg i'r llall fel mae ddoe yn troi yn heddiw a heddiw yn troi yn yfory.
- prosiect aml ddisgyblaeth, yn cyfuno gwyddoniaeth, llenyddiaeth, barddoniaeth, yr ysgafn a'r dwys, y sylweddol a'r ysgafn
- prosiect sy'n cymryd trem yn ôl er mwyn cymryd trem ymlaen
- prosiect sy'n berthnasol i ddysgwyr y Gymraeg ond nid yn gwahaniaethu nac yn nawddogi
- prosiect sy'n defnyddio'r holl gyfryngau cyfoes, o lyfr-ar-silff i Facebook - ac yn ol!
- prosiect sy'n storfa o wybodaeth
- prosiect i bobl sydd â'u traed ar y ddaear a'u hysbryd yn y sêr
- prosiect sy'n derbyn popeth ac yn croesawu pawb

Croeso i Llen Natur - y prosiect nad oes ei debyg yn unman, os na wyddoch yn wahanol!

(neu os oes, rhowch floedd!)

Diolch i chwi am wneud y brosiect yma yn un llwyddianus!



Cylchoedd crawcian

Ydych chi'n cofio'r rhaglen yna ar Radio Cymru “Gweld llais a chlywed llun”? Wel dyma “weld llais” yn llythrennol. Yn llun Gwyn Williams gwelir y cryniadau a achosodd swm y llyffant tua diwedd mis Chwefror eleni.

Dyma lyffant a welais yn gwneud swm 'crawc' mewn pwll ger Bethel. Sylwer ar y cylchoedd o'i gwmpas yn y dŵr wrth i'w wddf ddirgrynnu a chreu tonnau bychain.

Gwyn Williams

Y cofnod cyntaf o riff llyffant a gawsom eleni oedd o'r Gelli Gain, Ganllwyd, ar yr 22 Ionawr (diolch i Myfyr Tomos, un o wrandawyr Galwad Cynnar, Radio Cymru).

Trowynt gwair arall

Bu cryn son ym Mwletin 47 a 48 am drowyntoedd. Yn yr ail o rhain bu son am ffenomenon rhyfeddol o drowyntoedd "bychain" mewn caeau gwair. Diolch i graffter Tom Jones dyma ddod o hyd i un arall o Fôn ym mis Gorffennaf 2006. Dyma'r cofnod:

13 Gorffennaf 2006 Llanddeusant, Môn

Diwrnod braf iawn trwy'r dydd a sychu'n dda. Poeth hefyd. Corwynt mawr yn mynd a llawer o'r gwair i ffwrdd i bob man welais i mo hono ond roedd ei ôl yn bob man ar y gwrychoedd ar coed.

Dyddiadur Elinor Jones, Llanddeusant, Ynys Môn. (diolch i Mrs Jones a'i hwyres Sara)

Calcio efo mwsogl - mwy

Ym Mwletin 18 a 32 soniwyd am ystyr math arbennig o fwsogl a ddefnyddid i galcio simneau yn Sweden. Pam y math hwnnw gofynwyd. Dyma gynigiodd Tristan Hatton-Ellis, arbenigwr bywyd dŵr croyw gyda'r Cyngor Cefn Gwlad: *It's possible that no other moss could suffice. In rivers, Fontinalis antipyretica can reach lengths of 1m or so. This and the fact that it is very common means that it would have been the right sort of material and potentially available in large amounts. Afraid I don't know any Swedes who could confirm this though.*

Y gwanwyn ar ei ffordd

Diddorol clywed [ar raglen Galwad Cynnar] am y gwanwyn yn cyrraedd a'r adar yn symud - ar hyn o bryd dwi'n gweithio yn Khartoum, Swdan - lle mae Afon Nil Wen yn cwrdd ag Afon Nil Las cyn parhau ar ei thaith tuag at Yr Aiff, felly mae'r adar mudol



llun: Wil Williams yn Nantgaredig

nawr yn dechrau mudo i fyny ar hyd Afon Nil - a'r amser hyn o'r flwyddyn dyn ni'n gweld llawer o rywogaethau o adar mudol dw i heb eu gweld yn Nghymru ers tro megis y siglen felen, gwybedog mannog [uchod] a bod y gwerni - a phythefnos yn ôl gweles gannoedd o wenoliaid y glennydd yn hedfan tua'r gogledd. Tipyn o daith i fynd o fan'hyn cyn cyrraedd Ewrop.....

Terry Barry gyda chaniatad Galwad Cynnar, Radio Cymru

Cofnodion dal tyrchod

Ymysg trysorau'r dyddiadurwr o ffermwr ALIJ o Harlech (ni ddymuna gyhoeddi ei enw) roedd y tabl hwn (ar y dde) yn dangos yn fanwl y tyrchod a ddaliodd yn 1982.

Ewch i Fwletinau 33 a 40 i weld mai patrwm o ddal tyrchod yn y gaeaf oedd trefn William Jones, Aberdaron. Addasiad yw'r tabl



Nifer o dyrchod a ddaliwyd yn nhyrnog y gwanwyn 1982 yn ôl Dyddiadur ALIJ, Harlech

mis	dyddiad	nifer tyrchod	cyfanswm tyrchod
Ebrill	5	1	2
Ebrill	6	2	4
Ebrill	16	1	5
Ebrill	23	1	6

Ebrill (Nant)	25	1	7
Ebrill	27	2	9
Ebrill	28	1	10
Ebrill	30	3	13
Mai	1	2	15
Mai	2	1	16
Mai	3	1	17
Mai	7	1	18
Mai	17	1	19
Mai	19	1	20
Mai	21	1	21
Mai	23	1	22
Mai	27	1	23

Cyfanswm a ddaliwyd erbyn 27 Mai = 23

Llygod carnau

...ers stalwm roedd [llygod mawr] yn sgut am garnau meirch, ac roedd yr Efail Castell yn berwi efo nhw..

Eco'r Wyddfa Tach 1981

Dweud dim....

Llongyfarchiadau i'm holl ffrindiau a theulu a anwyd yn y 40's a'r 50's. Yn gynta, fe oesoedd cael ein genu gan famau oedd yn smocio, yfed sherry tra ein cario ac yn byw mewn tai gyda asbestos. Roeddent yn cymeryd Aspirin, bwyta caws glâs, bara a saim, wyau amrwd, bacwn a chig wedi eu prosesu, heb unryw brofion am y clefyd melyn na chancr. Roedd ein gwelyau wedi lliwio gyda phaent plwm. Roedd dim caeadau saff ar boteli meddygol, drysau, ac ar ben y grisiau. Roedd dim helmed diogel na sgidiau i reidio'r beic. Fel plant roeddem yn mynd mewn modur heb wregys, na bagiau aer. Roeddem yn yfed dŵr o'r pistyll neu ffynnon a ddim o botel. Doedd dim 'tec-away' heblaw sglodion a physgodyn, ac nid oedd Pizzas, McDonalds na KFC ar gael. Roedd y siopau yn cau am chwech a dim ar agor ar y Sul, ond rywfodd ni farwon o newyn! Roeddem yn siario pop gyda'n ffrindiau o'r un botel a 'farwodd neb! Roeddem yn casglu boteli yfed a chael arian yn ôl yn y siop a phrynu taffis, gwm a Gobstoppers. Roeddem yn bwyta cacennau, bara gwyn, menyn ffarm, llaeth o'r fuwch, ond nid oeddem yn dew achos OEDDEM YN CHWARAE TU ALLAN.

Roeddem allan o fore tan nos, neb yn gwybod lle'r oeddem ond roedd pawb yn ddiogel. Efallai byddem yn adeiladu 'go-carts' allan o hen bram a rasio lawr y rhiw a chofio bod ddim brechs!, yn adeiladu tŷ mewn coeden neu yn y clawdd a chwarae yn yr afon. Cwmpo, cael ein sgathru, torri braich neu goes efallai ond nid oedd cyfreithwyr rown y drws i edrych am ennill 'compensation'! Nid oedd Playstation, Nintendo, fideos, Sky, teledu lliw, ffôn symudol, cyfrifiadur, Y We a 'Chatrooms' -- ROEDD GENNYM FFRINDIAU GO IAWN ac roeddem yn mynd allan yw ffeindio. Gofynnwn i ddieithryn i'n helpu i groesi'r hewl. Roedd athrawon, a phlismon yn rhoi clatshen, bonclust neu cic yn dy dŷn am cam-fihafio ac roeddwn yn medru y TRI R yn rhigl....Ac roedd enwau synhwyrol arnom ni y plant. Roedd gennym rhyddid, methiant, llwyddiant a chyfrifoldeb, ac yn gwybod fel i ddelio gyda fe gyd. A rydych chi yn un ohonynt.

Llongyfarchiadau

P.S. - mae'r teipio'n fawr gan fod y llygaid yn pyli yr oedran hyn!!

Bryan Jones, Llangammarch

Un diwrnod o aeaf: 29 Ionawr 1884

Moelfre, Aberdaron: "Cael swch newydd a gwadn i'r gwŷdd. Daeth llong ar y Sarn Patrick yn llwythog o wenith a had llin".

Dyddiadur W Jones, Moelfre, trwy garedigrwydd Mrs WE Miners a Miss DL Roberts Sarn Badrig: "EULOMENE Stranded and lost [ar Sarn Badrig] whilst carrying a cargo of linseed, wheat and one stowaway in wind conditions SW force 6 [y llong yn mynd o Calcutta i Lerpwl, full rigged ship o haearn, wedi ei chofrestru yn Lerpwl, gyda chargo o lin, "cake" a gwenith. Criw o 28 ac 1 teithiwr (y stowaway mae'n debyg)

Shipwreck Index of the British Isles (Lloyds Register of Shipping)

Go brin mai llin Cymreig oedd hwn...?

Pryd oedd diwydiant llin yng Nghymru?

A dyfwyd had llin yma, ynteu ar gyfer deunydd yn unig y'i tyfwyd?

Mae'n amlwg bod y tywydd garw wedi parhau tan o leiaf y 29ain. Tri diwrnod ynghynt, yn Ochertyre, Crieff, yr Alban ar y 26 Ionawr cofnodwyd bod "An exceptionally stormy week ends today with the lowest unchallenged pressure reading ever recorded in the British Isles - 925.6 mbar. A violent gale ensues, blowing down a million trees on one Scottish estate alone Woodward A. & Penn R. The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton)

Ffynhonnau a springs

Bum yn llythyr yn Saesneg am ecoleg ffynhonnau gyda fy nghyfaill Tristan a syweddoli bod *spring* yn Saesneg yn golygu unrhyw "ddŵr codi", dim o anghenrhaid ffynhonnell dŵr. Bu'n rhaid anfon llun i esbonio beth oedd gen i dan sylw: Meddai Trystan:



Ah, I see. The water supply for our house looks a bit like that (only without the duckweed). It used to feed 5 houses. There is at least one other abandoned one on the hill where I live. I expect they are quite a common feature still in fridd zones. Ours is covered as I want to limit the amount of wildlife getting stuck in our water system. But the abandoned one on the hill supports a dense growth of bog pondweed, frogs, a few newts and no doubt a range of inverts. In terms of a characteristic ecology, these habitats will, like all freshwaters, be affected by a variety of external factors like water chemistry / quality, altitude, surrounding habitat etc. The main factor they are likely to have in common will be a more

or less constant supply of water at a more or less steady temperature, and to be fish-free. So, I wouldn't expect there to be a single characteristic ecology for these habitats, but they may well provide a characteristic mesohabitat in the context of the wider landscape. If I had to generalise I'd have thought they could be important for amphibians and invertebrates, as these animals can exploit small isolated habitats. But I don't think they have received specific study. Came across a nice example of one of these on holiday in the Dordogne last summer. It was a small stone spring-fed pool along an old drovers road in woodland. Even in drought there was a trickle coming in. It contained about 15-20 fire salamander larvae. Not sure if there is a French term though! These terms all seem more or less interchangeable in common use (I can remember a long debate a few years ago over the difference between a 'pond' and a 'lake'. I've always thought of 'ffynnon' as being broadly synonymous with 'well' or 'spring' (perhaps 'somewhere you can drink from?') - but then I hadn't come across the term 'pydew' - and language use is often infuriatingly (and interestingly) inconsistent (e.g. Ffynnon Llugwy (a lake), Pistyll Rhaeadr ("waterfall waterfall"). Tristan

Mae digon o luniau ffynhonnau i'w gweld ar wefan Llên Natur erbyn hyn - beth am gyfrannu mwy?

O Ddrych i Ddrych



Hwn wedi bod yma dros y penwythnos, fel y gwelwch o'r baw, ac yn hollol ddof. 10 a 11 Mawrth 2012

llun a sylw: Ifor Williams

Tybed ydi'r ymddygiad hwn yn fwy yn y gwanwyn, sef tymor amddiffyn tiriogaeth etc. Sylwadau os gwelwch yn dda. A lluniau o adar eraill yn gwneud yr un peth (mae'r sigli-di-gwt yn giamstar yn ôl y son) DB

Ewyn don

Tywydd gwyntog a llanw uchel yn creu ewyn ar y traeth yng Nghriccieth - 26 Rhagfyr 2011.

Llun: Gwyn Williams

Dyma ddywedodd y biolegydd morol Sion Roberts ar 29 Rhag 2011: la wedi gweld lot o ewyn yn ddiweddar... yr Hydref yn fwyn, a stormydd gaeafol yn hwyr eleni. Mae nhw yn dweud mai math o alga o'r enw *phaeocystis* yw'r prif gyfranwr at yr ewyn.

EWCH I'R DDOLEN HON I WELD EWYN LLAWER MWY TOREITHIOL YN <http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-lancashire-16354575>

Motorists in the seaside resort of Cleveleys in Lancashire have had to contend with three-foot drifts of foam blown in off the Irish Sea. The sea foam - or spume - is caused by waves whipping up seawater containing the offshore breakdown of algal blooms [28 Rhag 2011].

Dyma ddywedodd Sion am lun tebyg ganddo:

Ewyn môr, Criccieth. Cyrff meirw creaduriaid yn y plancton... Mae'r gwynt a'r tonnau yn malu'r celloedd, ac yn eu chwipio i greu'r ewyn, fel y mae gwynnwy yn cael eu chwipio i ewyn, gyda fforc. Alga ungellog o'r enw *Phaeocystis* sydd yn eu hachosi gan amlaf. O dan y microsgop mae *Phaeocystis* yn edrych fel griffi llyfant, pob cell wedi ei amgylchynu a jeli. Y jeli hwn yw'r prif gyfraniad at y 'gwynnwy' (protein), sydd yn creu'r ewyn môr.

Mae yna fwy o ewyn yn y Gwanwyn a'r Hydref - oherwydd y tywydd drwg, yn corddi'r môr i greu ewyn... nid oes cyn gymaint o ewyn yn yr Haf, er fod yna fwy o'r plancton, oherwydd fod y môr yn dawel. Erbyn y Gaeaf nid oes cymaint o blancion yn y môr, ac felly nid yw'r traeth mor ewynnog a ddisgwylir.

A dyma sylw arall o'r Tywyddiadur am ewyn môr

De Lloegr 21 Medi 1911:

A cool, breezy autumn day. The beach was covered with patches of soapy foam that shook tremulously in the wind - all the rocks and everything were drenched with water, and the spray came off the breaking waves like steam. A red sun went lower and lower and the shadows cast by the rocks grew very long and grotesque. Underneath the breaking waves, the hollows were green and dark like sea caverns. Herring Gulls played about in the air balancing themselves as they faced the breeze, then sweeping suddenly around and downwards with the wind behind them. We all sat down on the rocks and were very quiet, almost monosyllabic. We pointed out a passing vessel to one another or chucked a bit of shingle into the sea. You would have said we were bored. Yet deep down in ourselves we were astir and all around us we could hear the rumours of divine passage, soft and mysterious as the flight of birds migrating in the dark. The wind rose and tapped the line against the flagstaff at the Coastguard station. It roared through my hair and past my ears for an hour on end till I felt quite windswept and bleak. On the way home we saw the wind darting hither and thither over the long grass like a lunatic snake. The wind! Oh! the wind - I have an enormous faith in the curative properties of the wind. I feel better already. Dyddiadur WN Barbellion (aka Bruce F Cummings) "The Journal of a Disappointed Man" 2010) Roedd Cummings yn gwybod ei fod yn marw o'r parlys ymledol (MS) ar y pryd.

Nid yw unrhyw farn a fynegwyd ym Mwletin Llên Natur o angenrheidrwydd yn fynegiant o farn Cymdeithas Edward Llwyd, na'r Golygydd

Pigion o'r Papurau Bro:

Tân bach glas: Ym 1693 ymddangosodd dân bach glas rhyfedd ar hyd glannau'r Traeth Bach. Tybid ar y dechrau y gellid ei reoli'n eithaf hawdd, ond nid felly bu. Lledaenodd y tân gan gynhyrchu mwg annymunol. Llosgwyd teisi gwair ar dir Cefntrefor, Glasfryn ac yn yr Ynys, Talsarnau. Yn ogystal â dinistrio eiddo, roedd y tân hefyd yn llygru'r awyr â gwenwyn a bu farw nifer o anifeiliaid ar dyddynnod cyfagos. Roedd hyn yn peri ofn mawr i drigolion yr ardal.

Ymhen ychydig wythnosau dywedodd rhywun iddo weld bod sŵn yn cael effaith ar y fflamau ac y byddai felly'n bosib eu rheoli. Ar ôl clywed hyn, roedd ugeiniau o bobl bob dydd yn gwneud y swm mwyaf posib â chymr, drymiau, gynnau ac unrhyw offer arall addas at y gwaith. Yn rhyfeddol, gwelwyd bod y fflamau'n gwahanu ac yn cilio mewn ambell fan! Beth oedd achos y tân? Credai rhai mai gŵr a daflwyd allan o Dyddyn Siôn Wyn oedd wedi peri rhyw hud mellithiol ar y tir yno, a honno wedi lledaenu ar hyd y glannau. Daethpwyd i wybod er hynny mai nwyon tanlyd, gwenwynig a godai o'r corsydd ar lannau'r traeth oedd yr achos a hynny wedi cychwyn ym Morfa Bychan. Nid mellith, na dim felly, a achosodd y tân bach glas. Nid ychwaith y sŵn a wnaed gan y bobl a barodd i'r fflamau wanhau a chilio, ond dyna'r adeg pan oedd y nwyon yn darfod o'r tir.

Mathew Jones Llais Arduwyd

O ran y nwyon, mae'n siwr mai *Wil o'the Wisp*, cannyll y gors neu tân elyll oedd wrth wraidd y ffenomenon, o achos methan yn y gwlyptiroedd? Pam nad yw'n cael ei weld cymaint heddiw? Clywais son mai oherwydd holl draenio'r mawnogydd a fu ers hynny sydd wedi dihysbyddu'r methan.

Digwyddiadau eraill yn 1693

Peli tân: ym Morfa Harlech cofnododd Edward Llwyd beli tân yn codi, efallai yn gysylltiedig â ffawt Mochras. Tybia Twm Elias mai dyma ysbrydolodd Elis Wyn i gyfansoddi'r Gweledigaethau tua'r un cyfnod.

Locustiaid:



locustiaid yn paru (Wikipedia)

Y flwyddyn honno hefyd cofnodwyd "swarm of locusts which appeared in Wales in the year 1693".

Historical and Biographical sketches of the progress of Botany in England from its origin to the introduction of the Linnaean System. By Richard Pulteney, M.D., F.R.S Vol II

A dyma gadarnhad o'r digwyddiad o Mathri, Penfro ar 20 Hydref 1693 gan Edward Llwyd ar ôl gweld pla o locustiaid: "It is in length from head to the tips of its wings 3 inches and a quarter, of a reddish colour all over; eyes are very prominent and large, the antennae about the thickness of a hog's bristle...the hind legs are very beautiful, the thighs hexangular, the shanks a lively red, wings about 3 inches long, garnished with reticulated black spots". Tynnodd Llwyd luniau ohonynt gan eu disgrifio i'r Gymdeithas Frenhinol. Dyma'r unig dro i locustiaid gael eu cofnodi yn y Sir.

Allan o erthygl am Edward LLwyd mewn papur lleol yn 1994: John Lloyd Jones

Mynydd Etna

Frwydrodd y mynydd ar 11 Ionawr 1693 www.historyorb.com
Tipyn o flwyddyn 1693!

Dafydd Dafis

1924-2012

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sylfaenydd a Llywydd Cymdeithas Edward Llwyd ar y 12 Mawrth. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Cofiant gan Bethan Wyn Jones ar y wefan.



Cilfechydd, Y Waunfawr

Gan Guto Rhys: "Cyfeiria Glenda Carr yn ei hastudiaeth ddarlênadwy, ddeallus a dibynadwy *Hen Enwau* at annedd o'r enw Cilfechydd rhwng y Waunfawr a Betws Garmon. Nodir bod 'cilfechydd' yn cynrychioli lluosog 'cilfach'.



Cynnig arall sydd gennyf am yr ystyr.

Yn gyntaf, ffurf lluosog anarferol yw 'cilfechydd' (chwith 19 Mawrth 2012). Digwydd y ffurf ym Meibl William Morgan (1588, Doeth Sol xvii. 13). Yn

rhyfedd ddigon ceir y lluosog arferol 'cilfachau' yn Job (xxxix. 8). Hyd y gwn i dyma'r unig waith y cawn y lluosog hwn - tybed ai mympwy (neu gamgymeriad) William Morgan ei hun sy'n gyfrifol. Byddai'n ddiddorol gwybod rhagor.

Gellir cael argraff glir o leoliad y fferm ar <http://maps.google.com/>. Cliciwch ar 'satellite' am lun eglurach. Ar 'getamap' yr Arolwg Ordnans gellir ei weld hefyd (SH525586)

<http://www.getamap.ordnancesurvey.co.uk/>. Wn i ddim a yw'r lleoliad yn cyfateb i'r syniad o gilfachau. Ni welaf ond llethrau a dolydd ac mae'r fferm ger lôn weddol brysur ac ar un o'r prif ffyrdd trwy Eryri. Fyddwn i wrth gwrs ddim yn cynnig ei bod yn briffordd yn yr oesoedd canol. Onid lle cynnau mwy diarffordd a gynrychiolir gan 'Gilfach'?"

I dorri llith hir a chynhwysfawr yn fyr mae Guto Rhys yn cynnig "mai cil+Mechydd sydd yma, enw personol. Yn wir digwydd cil + enw personol lawer gwaith, Cil Ddewi (Fawr), Cil Dyfnog, Cil Gwgan (=Gwgon??), Cil Gwrgan, Cil Hernin, Cil Ifor, Cil Owen, Cil Seiriol, Cil Wnwg (< Gwynnog ??) - oll yn AMR. Awn i ddim i daeru mai enwau personol yw pob un ond digwyddant oll yn WCD (*A Welsh Classical Dictionary, Bartrum, 1993*). Mae'n ddigon i ddangos bod y cynnig yn ddichonadwy. Tybed faint ohonynt sy'n seintiau. Mae encilio i fan anghysbell yn nodwedd (ddealedig) o seintiau cynnar. Tybed a oes yma gapeli".

Guto Rhys 263839124470@groups.facebook.com

Mae encilfan Capel Garmon (sh526576) gwta gilomedr i fwrdd i'r de, wedi ei orchuddio â choed erbyn hyn.

Pós y mis

"Wedi dod ar draws 'hwn' ar draeth Harlech 11/2/2012, tua deunaw modfedd o hyd, dim cliw beth ydio" meddai cyfaill Liên Natur.



Beth ydio?...am docyn llyfr £10.

Atebion cyn y 15 Ebrill trwy "Cysylltwch"

Yr ateb i bós y mis diwethaf oedd "yr wylan ar y chwith" (yr un heb y mwgwd tywyll). Y rheswm oedd dyddiad y cofnod, sef Ionawr - sawl gwylan welsoch chi erioedd ym mis Ionawr gyda phen du?

Mi gawson ni un ymateb anghywir diddorol - yn rhoi ateb cymhleth i gwestiwn syml efallai: "Ddwedwn i taw y llun ar y dde ydi'r un cywir. Y rheswm - Mae yr wylan benddu yn nythu yn yr ucheldir yn y tymor nythu. Maent yn hoff iawn o lynnoed bychan gyda ynys yn y canol. Felly maent yn hel am fywd yn yr ucheldir, a gan fod y cwtiaid aur yn aderyn yr ucheldir, roedd yr wylan yn gweld ei siawns am fywd rhad". Diolch am drio.



Dŵr y Gogarth Fawr




Roedd cael cyflenwad digonol o ddŵr glân yn dipyn o broblem i drigolion 'Y Mynydd', sef Y Gogarth Fawr, Llandudno, yn yr hen ddyddiau. Cario dŵr i fyny'r Gogarth mae'r bachgen ar gefn asyn yn y llun uchaf a dynnwyd tua 1910. Oherwydd mai calchfaen yw tir y mynydd a bod hwnnw'n dylllog, 'roedd yn angenrheidiol i gario dŵr o 'Water Street', yn agos at ble mae gorsaf y tram heddiw, ble 'roedd yna ffynnon (Ffynnon Fictoria). Yr unig ffordd o wneud hynny oedd ei gario mewn caniau mawr. Yn yr ail lun mae'n debyg mai o Ffynnon Galchog mae'r gwr yma'n cario dŵr.

Lluniau a stori: Gareth Pritchard

Ewch i <http://llennatur.com/node/90> a chwiliwch am ffynnon i weld map o ffynhonnau Cymru (hyd yn hyn). Dewch a mwy i ni...

O Oriol Gabriel - y Llydawr llygatgraff



Gabriel Quere, Llydaw

Be' - gwyfynod yn y gaeaf?

Trefn niferoedd	Enw cyffredin	Cyfanswm gaeaf 2011-12
1	gwyfyn gwinau cyffredin	78
2=	gwyfyn Rhagfyr	32
2=	gwyfyn y gaeaf	32
4	dad-ddeiliwr	26
5	carpiog pluog	23
6	rhisglyn brith gwelw	19
7	gwyfyn gwinau tywyll	16
8	rhisglyn ymyl fraith	14
9	gwyfyn oren llinell felen	13
10	rhisglyn y cyll	12
11	castan goch	11
12=	brychan cochwyrdd	10
12=	brychanau Tachwedd (cyf.)	10
14	gwyfyn lloeren	9
15	gwyfyn cynnar	8
16	crynwr gothig	6
17	crynwr cyffredin	4
18	fforch arian	3
19=	rhisglyn brith bach	2
19=	rhisglyn y gwanwyn	2
19=	cwcwll bwaog	2



gwyfyn Rhagfyr



rhisglyn brith gwelw

*Garden Moth Scheme: diolch i'r trefnydd Norman Lowe o Benorth, Aberhonddu

Dyma'r gwyfynod a gafodd eu dal mewn trapiau mewn gerddi yn y gaeaf ar hyd a lled Cymru fel rhan o arolwg tymor hir Garden Moth Scheme Cymru.

Pwrpas cynllun GMS yw mesur newidiadau yn niferoedd gwyfynod dros y tymor hir. Mae croeso i wyfynnwyr brwd ymuno a'r cynllun.

Gwynt y Chinook ruai neithiwr



Llun: Rhys Edwards

Ar Yr Wyddfa ddoe (28 Chwefror 2012) - uwchben y cymylau. Roedd hwn yn achlysur meteorolegol diddorol, sef Effaith-gwynt Foehn - aka gwynt Chinook yng Nghanada (gwglwch i wybod beth yw hwn, neu ewch yn syth i http://en.wikipedia.org/wiki/Foehn_wind). Dyma ohebiaeth a gafwyd y diwrnod wedyn, 29 Chwefror 2012 ynglyn â'r achlysur rhwng y golygydd ac arbenigwr tywydd Llên Natur Huw Holland Jones:

CWESTIWN: "Huw, There was a Foehn wind apparently in Aberdeen yesterday. Was there one on the Cameddau I wonder? D. **ATEB:** I think there was a Fohn to the north of Eryri, you may have noticed the more sunny skies to the north of Eilio, owing to the descending (and thus drying) air. But it was not as marked as the Fohn in NE Scotland or NE England, & didn't give such high temps in N Wales. Hawarden did reach 14C. Durham was the warmest place in UK yesterday with 17.4C. Dyce in Grampian region was warmest in Scotland at 17.2C Huw"

Cwningod Llydewig

Nid oes air cynhenid yn y Gymraeg na'r Saesneg am gwningen. Dim syndod gan mai anifail a gyrrhaeddodd ynys Prydain gyda'r Normaniaid ydi'o. O'r gair *conyng* Ffrangeg Normanaidd mae *cwningen* yn tarddu. Ond geiriau benthg sydd amdani yn y Llydaweg hefyd. Ai arwydd mai anifail "dwad" ydi hi yn Llydaw hefyd?

Triniaethau am anhwylderau rhywiol

Mae'n debyg bod hyn yn sgwp i Llên Natur. Ni chyhoeddwyd y resetau canlynol gan Feddygon Myddfai yn Pughe 1861 oherwydd eu natur rhywiol a Phiwritaniaeth yr oes.

I WRAIG A FYTHO'N CAEL GORMOD O'I BLODAU

47. Cymmered droed ysgyfarnog, a llosged yn bylor, a chymmered ganel y bylor, y ddau hanner yn hanner, a doded mewn gwin coch, ag yfed o hono lwnc syched yn gyntaf a diweddfaf nawniwarnod, a hi a gaiff les o hynny.

I WYBOD AM FORWYN AI BOD WEDI CADW EI MORWYNDOD AI NA BO

72. Cymmer bylor y milwydd a dod ar ei diod, agos ni bydd morwyn, hi a gyfyd i wneuthur dŵr; os morwyn nid ysgyg.

I WYBOD PUN AI MAB AI MERCH A FO YNGROTH GWRAIG

73. Cais laeth bronn y wraig, a do def ar ei dŵr hi ei hun, os nofio wna'r llaeth yn ucha, mab yw; o sir gwaelod yr â, merch yw.

RHAG HWYDD YNGWIALEN GWR

91 Cais ddail y gwinwydd, a brew, a gulch yn dda, yna cais ddail y llinhad, a'r malw, a berw mewn llaeth, a dod o beutu'r ar liain manwe.

ARALL

92. Rhostia wiau yn galed, a thyn y melyn a gwna'n bylor mân, a gwna'n eliw, a gwasg ef drwy gadach lliain, a dod ar y wialen, ag y mae'n dda rhag y gwst mawr a fo mewn asgwrn, a rhag amrafael glefydau eraill.

ARALL

93. Cais floneg yr Affrig a chennin, a dod yn blaser wrth y wialen, ag iach y bydd. Ti a elli ymarfer a'r plasder hwn gyda's meddyginiaeth nesaf o'r blaen at hwn, a da fydd hynny.

I BERI I'R BLODAU GERED AR WRAIG

138. Cymmer dafod yr hydd (or hÿdd), a berw mewn dŵr yn ffest, a rhoi yn glaiardwym i yfed, ag iach y bydd.

RHAG PISO GWAED

139. Pwya arleg a brew mewn llaeth yn yr amser, ai yfed nos a bore, i iach y bydd.

RHAG TRAUW NATTUR AR WRAIG, A RHAG GORMODD O FLODAU

140. Cymmer risg derwen ifanc o'r hanner at yr haul, a thynn o'r bôn tua'r brig, a thynn yr uchaf ymaith, a briw yn dra mân mewn llaeth buwch unlliw, a chymmer werth ceiniog o saffar yn bylor mân, a brew y cyfan yn dda ar dan araf, a chwedyn ei hidlo ai yfed y bore a'r nosy n dair diod neu chwaneag, ag yn wir iach y bydd trwy Dduw, Amen.

RHAG GWAYW Y FAM A LLEWYDON

142. Cymmer gan gwenith, a dŵr yn oer, ai yfed yn dair diod, ag iach a fydd yn gwir, gyda nerth Duw.

I WRAIG A FO AI FFRWYTH YN CERDDED GORMODD

143. Cymmer flwr gwenith a llefrith yn oer, ag yfed ef felly, ag iach y budd yn wir.

RHAG Y FAM YN CODI AR WRAIG

144. Cais gymaint o ffafen o'r tus, a dod ar dri marweryn a chymmer y tarth i'th enau, ag ef a ostwng yr hywydd, ag hefyd cymmer *gorn y car wag arfer ef un yr un modd, a iach y fyddi.

RHAG Y FAM O'R BYDD YN CWNNU AR WRAIG YN HWYDDEDIG O'R CYLLA

146. Cymmer isob, a'r llyisiau llwydon, a gwna ddiod ag hwynt trwy hen gwrw iachus, a hidla'n lan trwy liain wedi'r brew, a dyro i'r wraig dair diod ar dri phryd, ag ef a estwng y clwyf yn wir, a dda yw'r ddiod honn rhag y *tostedd a'r cyllwst, o herwydd y llyisiau llwydon sy dda i'r clefydau hynny yn wir, ag felly rhag pob gwynnogwst yng nghorph dyn, ai un y cylla, ai yn y *llynnor.

I WR WEDI EI LOSGI GAN WRAIG

445. Cymmer linod, a llaeth geifr gwynnon, a brew yn iwd, a dod werth y wialen beuparth iddi; profedig yw.

Llwynogod Môn



Corff llwynog wedi ei grogi fel troffi ar goeden yn ardal Mynydd Bodafon, Môn, 19 Chwefror 2011 (ar daith Cymdeithas Edward Llwyd llun: Duncan Brown)

The recent infestation of Foxes in Anglesey has been noted several times in this journal [Nature in Wales]. In brief, one was recorded in 1961 and since then over 1,000 have been destroyed. It is not so well known, however, that this was by no means the first Fox record for the island. My neighbour Tomos Roberts of Trefdraeth is working through parish vestry books as part of his research in Anglesey place-names. In the churchwarden accounts of some parishes he is finding references to the destruction of Foxes during the latter part of the eighteenth century. Churchwardens usually paid one shilling for each Fox destroyed within their parish.

The accounts for the parish of Amlwch record the destruction of 41 Foxes between 1768 and 1787. Unfortunately a gap exists in the accounts between 1788 and 1820. The accounts for the years immediately following 1821 contain no references to Foxes. A survey of other Anglesey vestry books of the same period should reveal more facts about the Fox population and it may be possible to suggest a date of extinction. It is worth pointing out that Amlwch is just under Parys Mountain where the first of the present infestation began.

Dywed H. E. Forrest yn ei *Vertebrate Fauna of North Wales* (cyhoeddwyd yn 1907) nad yw'r llwynog yn gynhenid i Fôn ond "from time to time a few pairs have been introduced but as they were always killed very soon by the inhabitants, they never became established there." No dates are given for this second-hand information".

L.S.V. Venables Natur in Wales

Ond beth am y cofnod hwn o Fôn

The constant cavalcade of carts on Madyn Hill always held my attention in those early days.

Cofnodion TG Walker am ei blentyndod yn Amlwch, Môn (yn Hope, BD (2005) *A Commodious Yard* (Gwasg Carreg Gwalch)

MADYN (= llwynog?) [Ydi hyn yn arwydd bod y llwynog yn bresennol ym Môn yn y cyfnod y defnyddid y gair madyn am yr anifail ?]

Mwgdw yr wylan benddu...mwgy



Tywyn 12 Chwefror 1925: Chaffinch singing by Vic. no cadence, warm sun but only for a few minutes 9am....Large nos of Blackhead gulls, (one only wih black mwgwd on out of large no. examined, Feb 4...

Mae ei ddefnydd o'r gair


"mwgdw" yn brawf bod Lorimer Thomas (os dyna pwy oedd) yn Gymro Cymraeg. Tystiolaeth arall oedd ei sillafiad weithiau o Tŷ Slâts efo dwy acen grom.

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele 1922-1942

Ym Mwletin 49, testun Pôs y Mis oedd y tymor y caiff yr wylan benddu ei phen du. Lleiafrif bach sydd yn gwisgo'r "mwgdw" erbyn mis Chwefror yn ôl y sylw hwn

Lun gan Alun Williams, ac Alun ddarparodd y dyddiadur hefyd

Pigion o'r Papurau Bro



DARLUN yw hwn o fuarth Y Gors, Llanddeiniolen, yn fuan ar ôl troad y ganrif. Mesur ar draws can acer oedd y fferm, o fawndir du, a chwarter y rheiny yn dir âr, ac

addas i dyfu tatws a grawn. Roedd y gweddill yn gorsdir tonnenog, yn llawn migwyn, a chwrlid, lafrwyn [sic], a plhu'r gweunydd. Erbyn fy amser i yn y dau a'r tri degau, doedd fawr newid wedi bod yn y dulliau. Roedd y pren rhaffau, a'r manjar a'r delyn a'r corddŵr, a'r noe, yr og biga, a'r cambran yn dal mewn grym, a'r trymwaith yn cael ei wneud gan yr olwyn ddŵr a'r cefyllau. Roedd yna enwau ar y caeau yr adeg honno. Weirglodd Bifan, lle roedd yna ddam gwndwn a rhos, a rnaen mawr yn ei chanol lle byddai'r gwartheg yn cosi, a chaffaeliad i raffu ebolion a'u dysgu i renio.

Tu draw iddi roedd Cors Tan Radd; mynwent anifeiliaid. Roedd yr hen bobol wedi bod yn cloddio yno hefyd am danwydd, ac yr oedd y tyllau rheiny yn llenwi hefo dŵr gan adael ynsoedd bach yn y canol lle byddai'r hwyaid gwylltion yn nythu. Yn y fan honno rnae yna arian daear hefyd; dau biseraid o sofrenni aur dan gladd ers tuag amser fy hen daid a nain, Morgan a Phoebe Williams. Mae nhw wedi syrnudd erbyn hyn fel mae popeth yn y mawn. Roedd yna dwl yn y Gors Fawr hefyd lle bydden ni'n sglefrio yn y gaeaf ac ar nosweithia' mawr byddai'r cŵn dŵr yn dod i fyny'r ffosydd mawn ar ôl yr iear a'r gwyddau. Roedd yna weirglodd wrth y tŷ o'r enw y Bonc Bach, lle roedd y ffynnon wedi ei chloddio fel ogof dan godiad tir. Roedd yna ddraenen wen fawr wedi ei gosod yn ei hymyl i gadw gwres yr haul oddi ar y dŵr. Tu draw, roedd yna lain o'r enw Clwt Gaseg a Chyw, lle byddai'r cesig a'r cywion yn cael eu hymneilltuo ddechra'r haf oddi wrth yr anifeiliaid eraill i eael cyfle iawn i fagu. Pan oedd yr haul yn isel, nos a bore, roedd yna olion cefna gwenith i'w gweld yn y fan honno ers amser y degwm. Yn gyfochrog roedd weirglodd Ty Hen - lle da i godi sgwarnog. Roedd yna afon fach glir yn rhedeg trwyddi a honno byth yn sychu yn yr haf poetha am fod yna ddŵr codi ar ei chwrs. Ar ei glan, yn Weirglodd Pant, roedd murddyn Ty Hen, a fyddai'n cael ei ddefnyddio yn houwal drolia gan fy nhaid. Roedd yno fwgan hefyd yn ysgwyd y carwdenni ganol nos.

Ar yr ochr ddwyreiniol ar y terfyn roedd yna boncan eithin, Ponc yr Ynys Wen. Byddai yn caei ei thanio yn dymhorol er mwyn cael poethwel i fflagu o dan y popty i grasu bara. Rhwng y ddau le roedd yna lôn fach gul wedi ei gwario yn uchel. Ar hyd honno roedd y trolia yn symud rhwng Dinorwig a'r Felinheli. Ei henw oedd Lon Clechydd. Roedd yna dri cae arall ar derfyn a Beudy Sion Dywyll; Bryndu Bach, a Mawr, a Bryndu Twll, a thu ôl i'r beudai roedd Cae lloia, lle byddai'r lloia bach yn cael eu troi allan yn y gwanwyn ar ôl bod ym mllwch y beudy drwy'r gae. Roeddent mor hurt ar ôl dod i'r golau, nes yr oedd angen eu cadw ar dennyn am awr neu ddwy rhag iddynt ruthro ar eu pennau i'r waliau ac andwyo eu hunain.

Roedd yna deirw drwg yno hefyd bob amser, am fod yna, meddai rhai - garreg ateb yng nghefn y tŷ gwair. Ac yr oedd yn rhaid llyffetheirio a mygydu rhai ohonynt. Roedd fy ewythr Ellis - a aeth yn gaucho i'r Ariannin, ac yn ddiweddarach i ffarmio defaid i New South Wales, ac a laddwyd hefo'r Awstraliaid ar y Somme yn 'Hangard Woods' - roedd o yn dod heibio i'r Cyfar Main ar y Gors Ucha ar ryw orchwyl a chryman yn ei law, pan ddaeth y tarw o rywle a throi arno. Taffodd y cryman a'i daro yn ei egwd nes torri cymal ar ei ar, a syrthiodd i lawr fel tarw Sbaen. Clywais fy nhad yn dweud fel y darfu fy nhaid wedyn ei ladd wrth olwyn y drol.

Mae yna lwybrau difyr yn mynd ar draws y corysdd le byddai cariadon yn crwydro fraich ym mraich a dwsinau o drigolion y broydd yn mynd ar Sul y Blodau hefo bwnsieidiau o Gennin Pedr tros y Cae Cam i lawr i Laniolan. Mae yna un arall yn mynd ar draws i lôn y Rhydau heibio i'r Gamfa Bum Munud lle byddai aml un yn eistedd ar noson falmaidd o haf yn dal pen rheswm, neu naddu ffyn yn un fath a Thomos Owen, Ty Newydd, a'i fwstas wedi ei wacsio yn ddau bigyn fel RSM.

"Gwranda," fyddai o'n ddweud gan bwnio ffyrail ei ffon i fogal rhywun, "mae gin i stori fach i ddeud wrthat ti . . ."

Ail-ymgnawdoliad



Dyma stori ddifyr a ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar: *Fruit and seeds hidden in an Ice Age squirrel's burrow in Siberian permafrost have been resurrected into a flower by Russian scientists.*

Darllenwch fwy ar:

<http://www.telegraph.co.uk/science/science-news/9094952/Scientists-resurrect-Ice-Age-plant-after-30000-years-in-deep-freeze.html>

Silene stenophylla, neu'r gludlys culddail yw enw'r planhigyn ac mae'n byw yn y cyffiniau hyd heddiw.

Ffynnon Galchog, Gogarth Fawr



CHWEDLY DYN ANNATURIOIOL

Un pnawn yn y gaeaf, aeth bachgen ifanc, Rhys, a'i chwaer, Mair, i nôl dŵr o Ffynnon Galchog. Roedd yn dechrau tywyllu wrth i'r ddau adael y fan. Ar eu ffordd adref gwelodd y ddau rhyw ddyn dieithr yn cerdded tuag atynt. Wrth edrych arno gwelant fod y dyn yn troelli'n gyflym yn ei unfan, yna newidiodd i fod yn fwdwl mawr o wair cyn rhoio i lawr dros ochr y mynydd ac i'r môr! Rhai misoedd yn ddiweddarach, daliwyd clamp o bysgodyn mawr yn y bae ac wedi ei agor gwelwyd mwdwl o wair yn ei berfedd. Credai pawb mai'r un mwdwl â'r un a welodd y bachgen a'i chwaer yn troelli i lawr i'r môr oedd! ... ac os coeliwch chi'r stori yna...!!!!

Lleolir y ffynnon hon ger Mynydd Isaf ac i'r gogledd o Pen Dinas, y cyfeirnod map yw sh77758367. Dydi hon ddim yn un hawdd i ddod o hyd iddi! Y ffordd hawsaf yw gyrru i fyny'r Gogarth cyn belled â'r grid gwartheg sydd gyferbyn â Ffordd Sant Beuno. Ar ôl parcio troi i'r dde a dilyn y llwybr heibio Penmynydd Isaf. Yn 1997 sylwodd David

Chapman, cerflunydd efydd lleol bod wyneb craig, ychydig islaw Ffynnon Galchog, yn cynnwys siarcol, darnau o esgyrn a slag copr. Llwyddodd i gael grant gan CADW i dyllu yn y fan. Codwyd darnau o fetal copr, 'malachite' a 'chalcopryrite' a llwyddwyd i brofi eu bod yn dyddio o 1580 CC. Profwyd bod dŵr o'r ffynnon wedi cael ei ddefnyddio i olchi copr bryd hynny. Hefyd, cyn hynny, yn 1990, 'roedd Andy Lewis wedi darganfod darnau o forthwylion cerrig, esgyrn a siarcol ar y safle

Lluniau a hanes: Gareth Pritchard a'i SiopFfotos!

Bwrw plu



More signs that Spring isn't too far away. This Little Egret photographed on the Cob yesterday [10 Chwefror 2012] is already moulting into its' Summer breeding plumage. Who would have thought that this exotic looking elegant bird that was first recorded here back in 1989 would now be such a common visitor to the Glaslyn?

Llun: Elfyn Lewis (Facebook Glaslyn Nature)



Aderyn y Bwn

Tynnais y llun hwn ar Ddydd Sul, Chwefror 26 eleni yn Rufford, Swydd Caerhirfryn. Yn y gaeaf mae nifer o adar y bwn yn dod i Brydain o'r cyfandir. Ni fyddaf yn eu gweld yn aml ac fel arfer dim ond cip sydyn rhwng yr hesg. Roedd dau yno, un yn cuddio fel arfer ond hwn/hon yn bwydo o flaen y guddfan.

Llun: Alun Williams

Oes enwau lleol am Aderyn y Bwn meddai Alun? (ateb isod) "Roeddwn yn tynnu y llun yma mewn cuddfan yn Mere Sands Woods ac roedd adaryddwr arall yn ei wyllo. Dywedodd, "I'm 72 years old and it's

the first time I've seen a bittern, I've been birding for 50 years and I don't know which is the happiest day, today or the day I got married. "Nid oedd yn barod i ateb gan bod ei wraig y tu ol iddol!"

Tabwrdd y baw (ac enwau eraill)

Yn ei lyfr ar enwau'r adar mae Dewi Lewis yn rhestru nifer o enwau lleol ar aderyn y bwn (sy'n dangos ei fod yn aderyn cynhenid a chyfarwydd ar un adeg pan oedd corsydd yn fwy niferus. Dyma nhw: bwm y gors [cyfeiriad at y sŵn a wneir gan yr aderyn adeg y nythu], bwmp y gors, buddai, tabwrdd y baw, buddair, crëyr brych. Ei enw yn Saesneg yw Bittern, yn wyddonol *Botaurus stellaris*. Ei enw yn Ffrangeg yw *Butor étoilé*, yr elfen *étoilé* yn cyfeirio mae'n debyg at y patrwm serog ar ei gefn neu wddf.

Eithin Spaen ar y Consti

In 1927 a Miss Adamson, studying French at the U.C.W., Aberystwyth, collected a plant which her mother sent for identification to the British Museum (Natural History), saying in a letter that it was "found growing in plenty on a bare hillside above Aberystwyth — far enough from anywhere, so I understand, for the idea of an escape not to occur to her or me." The specimen was identified as *Genista hispanica* and can still be seen in the BM herbarium. The only mention in print of this plant at Aberystwyth is in the 1977 guide to the nature trail on Constitution Hill prepared by the Naturalists' Trust, where it is mentioned under the misleading name of "Spanish Broom". It was, surprisingly, not mentioned by Salter in his county Flora of 1935, and no general British Flora includes it as a naturalised species. It has been planted on roadsides in several parts of England, especially Hampshire, but none of the few county Floras that include it suggest that it has ever become self-sown and effectively naturalised. I can remember seeing the Aberystwyth population for at least the last 25 years, and over the last 5 years or so it has increased considerably. The colony, which must be the same one that Miss Adamson found, is on the south-facing slope of Constitution Hill, between the top half of the Cliff Railway and the sea cliffs (SN 583828). There are some hundreds of plants in an area c. 150 x 50 m. The largest plants form softly spiny cushions c. 3 m. in diameter and c. 70 cm. tall, and the total area of the cushions is c. 450 sq. m. When in flower, in late May, the clear yellow of the *Genista* contrasts strikingly with the golden yellow of the surrounding *Ulex europaeus* (Spring Gorse), and can be seen with the naked eye from two miles away at Pen-parcau...How and when it was introduced to Constitution Hill is unknown, but it is certainly well-naturalised there and today, as in 1927, could easily be taken for a native.

Nature in Wales Mawrth 1978 (gyda chaniatad)

Ydi'r eithin Spaen ar y Consti o hyd? Beth am fynd am dro ddiwedd mis Mai i'w weld. Ia, bydd llun o'i flodau melyn clir yn dderbynniol iawn diolch!

Wcws a rhocos

Mae dail a blodau yr hocysen yn iawn i'w bwyta ac mae modd gwneud diod o'r gwreiddyn. Yn feddyginiaethol defnyddiwyd y dail i leddfu peswch neu atal llid llosgiadau neu bigiadau llun [a sylw]: Dylan Jones "Coeden rhocos" yw *Malva sylvestris* ym Mhen Llŷn. *Malva* yw'r enw Lladin am y gwahanol fathau o hocys. Dyna yw tarddiad y gair *mauve*

Daeth y gohebiaeth ganlynol i'r fei yn ddiweddar:

Ystyr Wcws/Wccws?

Tybed welsoc'h chi'r llythyr hwn gan J.Jones, Dinbych, a gyhoeddwyd yn yr Herald Cymraeg yn y Daily Post wythnos neu ddwy'n ôl:

"Rydw i'n gobeithio y bydd rhywun o'r darllenwyr cyson fel finnau yn gallu fy nghynorthwyo i ddatrys ystyr enw preswylfod yn ardal y Bermo. Y mae cymydog imi wedi ei enwi a'i fagu yn Llundain a Saesneg yw ei iaith ond roedd ei dad yn Gymro ac yr oedd modryb iddo'n byw yn Llwyn Wccws, Llanaber, ger y Bermo. A oes rhywun yn gallu esbonio ystyr yr enw Wccws?"

Yr unig ateb a gyhoeddwyd yn y rhifyn canlynol oedd llythyr gan Mair Tomos, Tŷ Capel Eden, Trawsfynydd, yn dweud ei bod wedi pori sawl geiriadur heb lwyddiant. Roedd hi'n cynnig 'hocys', math o blanhigyn. A oes rhywun yn gwybod yn well? Anfonwch atom.

Wel, dyma ofyn i'r arbenigwraig enwau lleoedd y Dr. Glenda Carr:

Diolch am y cyfeiriad at 'wcws'. Gwn ei bod yn demtasiwn tybio mai enw planhigyn fyddai'n dilyn yr elfen 'llwyn', ond roedd yr enw 'Llwyn Cwla' yn digwydd yn Llandwrog ar un adeg ac enw personol yw 'Cwla' yma yn dilyn yr elfen 'llwyn'. Mae 'Llwyn Angharad' hefyd yn Llanwnda. Credaf yn bendant mai ffurf anwes, neu ffurf fachigol, ar yr enw 'lorwerth' yw 'Wcws'. Ceir y ffurfiau locws, lwcws, lcws mewn sawl lle. Rwyf yn trafod y ffurfiau hyn i gyd ar dudalen 266-7 o'm llyfr Hen Enwau o Arfon, Llyn ac Eifionydd yn yr adran ar Yokehouse ger Pwllheli. Cychwynnodd hwnnw fel Tyddyn locws cyn troi'n locws ac yna mynd yn grand i gyd a throi'n Yokehouse! Mae'r ffurfiau a geir yn Archif Melville Richards ar gyfer Llwyn Wcws, sef lwcws o 1704 a lockos yn 1786, yn cadarnhau fy marn mai ffurf anwes ar lorwerth sydd yma hefyd gan fy mod wedi gweld yr un ffurfiau sawl tro mewn enwau lleoedd eraill. Felly, nid planhigyn ond ffurf annwyl neu anwes ar ryw lorwerth a oedd yn byw ger y llwyn ers talwm.

gwyf of Robert de Hender clochudd	3	4
Edw morwynau de Hender clochudd	8	0
Rob Edward de gardd Daniel	4	0
Edw Edwards de loyn json bus	18	0

A dyma'r Dr Rhian Parry (prosiect Adnabod Ardudwy):

"Dyma ddam o Rentol y Goron, Llanaber yn 1637. Mae amryw gofnodion at y man yma mewn dogfennau ystad lleol hefyd."

Dim "llên natur" wedi'r cyfan...ond diddorol yr un fath



Cyflafan ym Mhwllheli

A great immigration of birds at Pwllheli on the night of 17 March 1904. the wind was north east and the night was fine at Pwllheli, but at St Tudwal's the weather was bordering on fog. The

men in the quarry on the Gimlet Rock (Carreg yr Imbril [sic]) loading vessels..flares burning lit the up whole place...suddenly the workmen were startled by a flow of birds, descending on the rock...thousands of birds dropped on the quarry in a dying state..ground thickly covered with birds dead or dying ...hovered in a helpless condition a few yards up in the air. Daybreak seashore strewn drowned at sea and washed ashore by tide...snipe, woodcock, starling, blackbird, robin, thrush, curlew...similar fall on St Tudwal's islands (Aplin, OV(1905) Zoologist pp 17-173)

Llun:Charreg yr Imbill yn y pellter (nad yw mwyach). Marc post 26 Gor 1905